# Cam 1: Cyflwyniad – sefydlu busnes

Yn ystod y prosiect Ffermio STEMterprise bydd plant yn cwblhau ystod o dasgau trawsgwricwlaidd er mwyn paratoi eu cynhwysion eu hunain, datblygu eu cynhyrchion iogwrt baner fwyd Prydain eu hunain a sefydlu caffi iogwrt.

## Amcan dysgu

- I adnabod ac enwi siapiau 2D cyffredin
- I ddylunio logo busnes

## Trosolwg cam

Yn y cam hwn, cyflwynir yr her i'r plant: sefydlu caffi iogwrt. Bydd y plant yn dysgu i enwi ac adnabod ystod o siapiau 2D ac yna'n defnyddio'r dysgu hwn i ddylunio logo i'w busnes.

## Nodiadau cyflwyniad

| | |
|---|---|
| Sleid 2:<br>Cyflwyniad | • Esboniwch i'r plant y byddwn yn dysgu sut i sefydlu busnes caffi iogwrt yn ystod y prosiect hwn.<br>• Llywiwch drafodaeth am brofiadau plant o gaffi: beth ydyn nhw? Gyda phwy wnaethon nhw ymweld? Beth wnaethon nhw ei fwyta yno?<br>• Esboniwch eu bod yn mynd i weini prydau iogwrt y byddan nhw'n eu haddurno yn eu caffi a bydd yr holl gynhwysion wedi'u tyfu neu eu cynhyrchu ym Mhrydain.<br>• Defnyddiwch fapiau Google i egluro ble mae Prydain ac yn benodol ble mae'ch ysgol chi.<br>• Esboniwch fod defnyddio cynhwysion lleol yn un ffordd y gallwn ofalu am yr amgylchedd oherwydd ei fod yn lleihau pa mor bell y mae'n rhaid i'r bwyd deithio i gyrraedd ein platiau. Mae hyn yn lleihau'r angen am gludiant, gan leihau llygredd aer. |
| Sleid 3:<br>Enw i'r busnes | • Gofynnwch i'r plant feddwl am unrhyw fwytai neu gaffis eraill maen nhw wedi bod iddyn nhw a rhestrwch eu henwau ar y bwrdd gwyn.<br>• Esboniwch y bydd angen enw bachog ar eu caffi iogwrt hefyd i ddenu cwsmeriaid.<br>• Rhannwch y plant i grwpiau gallu cymysg a'u herio i benderfynu ar enw ar gyfer eu caffi. |
| Logos busnes | • Defnyddiwch y rhyngrwyd i ddangos rhai logos busnes poblogaidd ac egluro bod busnesau yn aml yn defnyddio siapiau syml iawn ar gyfer eu logos.<br>• Esboniwch y byddwch chi'n dysgu am siapiau dau ddimensiwn fel y gall y plant ddylunio logo syml fel y cwmnïau mawr rydych chi wedi edrych arnyn nhw. |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.

| | |
|---|---|
| Sleid 4-7:<br>Siapiau 2D | • Defnyddiwch y cyflwyniad i drafod enwau'r siapiau 2D ac i dynnu sylw at eu nodweddion.<br>• Heriwch y plant i gymhwyso eu dysgu yn ystod helfa siâp 2D: gofynnwch iddynt ddod o hyd i gynifer ag y gallent o wahanol enghreifftiau o bob un o'r siapiau 2D yn yr ystafell ddosbarth/y tu allan.<br>• Caniatewch amser i'r plant adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau i'r dosbarth cyfan a mynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau. |
| Sleid 8:<br>Dylunio logo busnes | • Gofynnwch i'r plant ddylunio logo ar gyfer eu caffis iogwrt gan ddefnyddio'r siapiau 2D maen nhw wedi bod yn dysgu amdanyn nhw.<br>• Caniatewch amser i'r plant gyflwyno eu gwaith a rhannu enwau eu busnesau. |

## Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| Maes | Pwnc | Amcan |
|---|---|---|
| Mathemateg | Geometreg | • Adnabod ac enwi siapiau 2D a 3D cyffredin, gan gynnwys siapiau 2D [er enghraifft, petryalau (gan gynnwys sgwariau), cylchoedd a thrionglau]. |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.